

Clymog Japan

Enw gwyddonol: *Reynoutria japonica* var. *japonica* (cyn hynny *Fallopia japonica*)

Planhigion eraill ar Restr 9: Corglymog, Clymog mawr, Clymog Bohemia (hybrid)

Beth yw clymog Japan?

Clymog Japan yw'r mwyaf cyffredin o bedwar clymog goresgynol sy'n bresennol ym Mhrydain (mae clymog Japan a'r corglymog yn fathau o'r un rhywogaeth):

1a Clymog Japan (*Reynoutria japonica* var. *japonica*)

1b Corglymog (*R. japonica* var. *compacta*)

2 Clymog mawr (*R. sachalinensis*)

3 Bohemian (hybrid) knotweed (*R. × bohemica*)

Ble mae clymogau goresgynol yn tyfu?

Mae clymog Japan yn gallu tyfu yn y rhan fwyaf os nad yr holl briddoedd a geir ym Mhrydain, er bod yn well ganddo gynefinoedd sydd wedi'u creu gan ddyn. Fe welwch y clymog yn aml yn tyfu yn y mannau canlynol: ar ochr ffyrdd, ar dir segur, wrth ochr rheilffyrdd, ar domennydd cloddio ac ar hyd afonydd a nentydd.

Sut mae'r clymog yn lledaenu?

Mae'r clymog yn lledaenu yn uniongyrchol trwy ei risomau a thrwy dyfiant newydd o ddarnau o ddail, coesau a rhisomau y fam blanhigyn: gall planhigyn newydd dyfu o ddarn o risom mor fach ag 1cm.

Y Gyfraith

Oherwydd eu heffaith ddrwg ar yr amgylchedd a'r economi, mae clymogau goresgynol wedi'u rhestru ar Restr 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n golygu ei bod yn drosedd plannu'r planhigion hyn neu eu caniatáu i dyfu yn y gwyllt. Hefyd, mae clymog yn cael ei ystyried yn 'wastraff sy'n cael ei reoli' o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n golygu mai dim ond cludwr gwastraff cofrestredig sy'n cael ei gludo a hynny, dim ond i safle cymeradwy. Rhaid cadw cofnodion cludo pob llwyth am o leiaf 2 flynedd.

Sut i adnabod clymog Japan

Sut olwg sy' arno?

Mae Lluniau A-H yn dangos sut olwg sy' ar glymog Japan o dan ac uwchlaw'r ddaear gydol y flwyddyn.













A = tyfiant trwchus o risomau (gwreiddiau) 1-2m o dan y ddaear; **B** = manylion rhisom; **C** = trawstoriad trwy risom byw (sylwer ar y lliw oren); **D** = blagur coesyn cwsg yn nechrau'r gwanwyn; **E** = blagur coesyn yn datblygu yn y gwanwyn; **F** = coesyn, diwedd y gwanwyn; **G** = tyfiant llawn canol haf; **H** = coesau marw yn y gaeaf.



Adnabod gwahanol fathau o glymogau goresgynnol

Prif nodweddion

Mae clymogau goresgynnol yn debyg i'w gilydd, er bod gwahaniaethau amlwg yn y dail a'r coesau yn arbennig. Mae nodau neu gygnau (segmentau'r coesau) unigryw ar goesau pob clymog goresgynnol; un ddeilen sy'n tyfu wrth bob nod, bob yn ail i fyny'r coesyn (h.y. nid oes parau o ddail gyferbyn â'i gilydd wrth bob nod).

Enw cyffredin	Clymog Japan	Corglymog	Clymog mawr	Clymog Bohemia (hybrid)
Uchder	2-3m o daldra	Hyd at 1m o daldra	Hyd at 4m o daldra	2.5-4 m o daldra
Maint deilen isaf	<p>10cm</p>  <p>10-15cm o hyd</p>	 <p>Hyd at 10cm o hyd</p>	 <p>Hyd at 40cm o hyd</p>	 <p>Hyd at 25cm o hyd</p>
Dail isaf	Hirgrwn bras, yn syth wrth y bôn – yn teimlo'n galed gyda'r ochr isaf yn llyfn	Hirgrwn bras, yn syth wrth y bôn - yn teimlo'n galed gyda'r ochr isaf yn llyfn	Hirsgwar bras, siâp calon wrth y bôn – yn teimlo'n ddelicet, gydag ochr isaf blewog	Nodweddion rhwng y ddau – mae wyneb isaf y ddeilen yn aml yn teimlo'n eithaf garw
Y Coesyn	 <p>Smotiau mân coch</p>	 <p>Smotiau mân coch</p>	 <p>Dim smotiau coch</p>	 <p>Ychydig o smotiau coch</p>
Lliw blodau a twf	 <p>Lliw hufen, canghennog</p>	 <p>Lliw hufen, heb fod yn ganghennog</p>	 <p>Gwyn â gwawl gwyrdd, canghennog</p>	 <p>Lliw hufen, canghennog</p>
Cyfnod blodeuo	Awst – Hydref	Awst – Hydref	Awst – Medi	Awst – Medi

Cylch bywyd clymogau goresgynnol – rheolaeth

Ymchwil

Yn 2018, cyhoeddodd Jones et al y set gyntaf o ganlyniadau'r [treialon maes mwyaf yn y byd ar reoli clymog Japan](#).

Fel rhan o'r ymchwil, cafodd profion eu cynnal ar nifer o dulliau rheoli cemegol a chorfforol (mecanyddol). Gwelwyd nad oedd dulliau corfforol yn effeithiol ac o'r chwynladdwyr oedd ar gael, gwelwyd mai glyffosad oedd yr un mwyaf effeithiol ar gyfer rheoli'r clymog, ond dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn. Sylwch fod y cyfnodau tyfu yn y diagram isod yn rhai bras ac yn dibynnu ar y math o glymog dan sylw, y tywydd ac uchder y tir.

Pwysigrwydd cylch bywyd y clymog

Rydym yn dangos amseriad cyfnodau tyfu'r clymog isod a'n cyngor ar gyfer amseru'r driniaeth. Mae ymchwil Jones et al. (2018) yn dangos, er mwyn i glyffosad fod ar ei fwyaf effeithiol, dylech ei roi rhwng canol yr haf a diwedd yr hydref (gan ddibynnu ar y tywydd). Dyna pryd y mae'r maeth yn cael ei dynnu i lawr o'r dail i'r rhisomau. O'i roi yn gynharach yn y flwyddyn, ni fyddai'r chwynladdwr yn cael ei gario i'r rhisomau ac ni châi fawr o effaith os o gwbl ar y tyfiant uwchlaw'r ddaear mewn blynyddoedd diweddarach.

Amseriad cyfnodau tyfu a thrin y clymog	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Cyfnodau tyfu bras – gan ddibynnu ar rywogaeth, tywydd ac uchder y tir												
Blagur yn datblygu												
Tyfiant y coesyn												
Dail gwyrdd												
Blodau												
Gwywo												
Cwsg												
Rhoi triniaeth – chwynladdwr glyffosad												
Ar y dail bob 6 mis												
Chwistrellu'r coesyn												
Ar y dail bob 12 mis												

Cynghorion da wrth drin clymog

Pwysig:

Dyma restr o bethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud, ar sail ymchwil Jones et al. (2018).

Peidiwch â ...

- Peidiwch ag ystyried trin clymog oni bai bod gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Mae yna hanesion bod morgeisi wedi'u gwrthod yn sgil rhoi triniaeth wael neu annigonol.
- **Peidiwch â meddwl bod yna ateb hawdd – mae'r clymog yn blanhigyn cryf a bydd angen mwy na blwyddyn o driniaeth â chwynladdwr i'w reoli.** Dylai unrhyw gynllun rheoli fod yn un tymor hir a thargedu'r rhannau o'r planhigyn sydd uwchlaw'r ddaear ynghyd â'r rhannau helaeth sydd dan ddaear.
- Peidiwch â chynnal dulliau trin sy'n aneffeithiol ac a allai helpu'r clymog i ledaenu. Mae ymchwil Jones et al. (2018) yn profi mai dulliau corfforol yw'r lleiaf effeithiol o'r holl driniaethau ac sydd fwyaf tebygol o ledaenu'r planhigyn. Mae dulliau corfforol yn cynnwys: torri gan ddefnyddio offer llaw, strimiwr, peiriant lladd gwair, ffust a thrasiwr; tynnu â llaw; gorchuddio wyneb y pridd â geodecstil/geofeinwe; compostio a llosgi.
- Peidiwch â cheisio palu'r clymog o'r ddaear eich hun; mae'n hawdd gadael ambell ddarn o risom a'i ledaenu, a chewch chi ddim taflu'r torion gyda'ch gwastraff gardd – **mae hynny'n anghyfreithlon.**

- **Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr anaddas.** Mae ymchwil Jones et al. (2018) yn dangos o'r holl fathau o chwynladdwyr sydd ar gael, glyffosad yw'r driniaeth fwyaf effeithiol o'i ddefnyddio ar yr adegau cywir o'r flwyddyn. Rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio chwynladdwyr feddu ar dystysgrif hyfforddi broffesiynol.
- Peidiwch â defnyddio anifeiliaid pori i reoli'r clymog – mae ymchwil flaenorol wedi dangos nad yw hyn yn gweithio.
- Peidiwch â defnyddio dulliau sydd heb eu profi – dydyn nhw ddim yn gweithio ac yn debygol o wneud pethau'n waeth.

Tystysgrifau contractwyr

Wrth chwilio am gontractwr, rydym yn argymhell bod ganddynt y dystysgrifau canlynol:

- Aelod o'r Amenity Forum
- Cofrestr broffesiynol BASIS
- Cofrestr hyfforddiant amwynderau BASIS
- Cofrestr Broffesiynol 'Nominated Storekeeper' (NSK) BASIS

Rydym yn argymhell hefyd eich bod yn dewis rhywun sy'n aelod o'r cymdeithasau canlynol:

- Property Care Association (PCA)
- Invasive Non-Native Specialists Association (INNSA)

Gwnewch hyn ...

- Anwybyddwch yr hysteria – dangosodd Jones et al. (2018) fod modd rheoli'r clymog o ddefnyddio glyffosad ar yr adegau iawn o'r flwyddyn, er y gallai gymryd tair i bum mlynedd.
- I reoli clymog, yn ôl ymchwil Jones et al (2018), dylech ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:
 1. **Ar y dail bob chwe mis** – rhoi hanner y mwyaf a ganiateir (gweler label y cynnyrch) ddwywaith y flwyddyn.
 2. **Chwistrellu'r coesyn** – chwistrellu cymaint ag a ganiateir (gweler label y cynnyrch) i'r coesyn unwaith y flwyddyn; ond mae angen 15 gwaith yn fwy o chwynladdwr na phan gaiff ei roi ar y dail.
 3. **Ar y dail unwaith y flwyddyn** – rhoi cymaint ag a ganiateir (gweler label y cynnyrch) unwaith y flwyddyn; ddim yn gweithio cystal â thrin y dail bob chwe mis a chwistrellu'r coesyn ond mae angen llai o lafur ac mae'n fwy cynaliadwy.

- Cadwch olwg am arwyddion o ailddyfiant. Os gwelwch ailddyfiant, holwch arbenigwr am gyngor. Mae clymog Japan sy'n aildyfu ar ôl triniaeth â glyffosad yn edrych yn wahanol iawn i blanhigyn iach – gweler y lluniau isod.
- **Os ydych wedi llwyddo i gael gwared ar glymog trwy ddefnyddio chwynladdwr, peidiwch â throï'r pridd trwy ei balu er enghraifft, gan y daw yn ôl. Hyd yn oed os ydy'r rhannau uwchlaw'r ddaear wedi marw, mae'n debygol bod y rhisomau dan ddaear yn fyw o hyd.**
- Os oes angen cael gwared ar glymog o'ch tir yn gyflym neu ei rwystro rhag lledaenu o dan ddaear i dir cymydog, cysylltwch â chontractwr cymwys i wneud y gwaith corfforol angenrheidiol (e.e. gosod rhwystrau o feinwe).
- **Defnyddio'r dulliau rheoli iawn** – mae'n drosedd achosi clymog i dyfu yn y gwyllt a gallant greu niwsans preifat. Mae hyn yn golygu bod caniatáu i glymog ledaenu o'ch tir fod yn drosedd a **gellid dwyn achos preifat yn eich erbyn am greu niwsans.**

Sut mae clymog sydd wedi'i drin â chwynladdwr yn edrych?

Mae lluniau I-K isod yn dangos sut olwg sydd ar glymog Japan sy'n aildyfu ar ôl cael ei drin â glyffosad.



Nodwch mai er gwybodaeth yn unig y mae'r daflen hon. Os oes gennych unrhyw bryderon cyfreithiol penodol ynghylch Clymog Japan, rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol.

Datganiad hawlfraint

Advanced Invasives Ltd biau hawlfraint y delweddau yn y ddogfen hon -

© Advanced Invasives Ltd | 2020. Cedwir pob hawl

Gwaharddir ailddosbarthu neu ailgynhyrchu unrhyw ddelweddau yn y ddogfen hon, ac eithrio'r canlynol:

- cewch argraffu neu lawrlwytho delweddau i ddisg caled lleol at eich defnydd chi ac at ddibenion anfasnachol yn unig
- cewch anfon copi o'r cynnwys at drydydd partion unigol ar yr amod eich bod yn cydnabod bod y deunyddiau'n dod o'r ddogfen hon

Ni chewch, heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol gennym, ddsbarthu neu ddefnyddio'r delweddau at ddibenion masnachol. Ni chewch drosglwyddo'r delweddau na'u storio ar unrhyw wefan arall neu fath arall o system adfer electronig.

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi cael ei llunio ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Advanced Invasives Ltd

ADVANCED INVASIVES

Wrth ddyfynnu cyfeiriwch at:

Jones D (2020) Gwybodaeth i'r cyhoedd am blanhigyn goresgynnol yng Nghymru: Clymog Japan. Llywodraeth Cymru.

Ffynonellau a ddyfynnwyd

1 Advanced Invasives *Caerphilly CBC* (2019) 2 Akeroyd *BSBI* (2014) 3 Bailey et al. *Biol. Invasions* (2009) 4 Bailey & Conolly *Watsonia* (2000) 5 Beerling et al. *J. Ecol* (1994) 6 Brabec & Pyšek *Folia Geobot.* (2000) 7 Environment Agency (UK) (2013) 8 Gerber et al. *Biol. Conserv* (2008) 9 Grime *John Wiley & Sons Ltd* (2001) 10 HM Government (2015) 11 Hocking et al. *BSBI* (2019) 12 Jones *PhD Thesis* (2015) 13 Jones et al. *Biol. Invasions* (2018) 14 Jones & Eastwood *Pest Manag. Sci.* (2019) 15 Stace *C&M Floristics* (2019)